# LLYGAD BARCUD

CYLCHLYTHYR

CYMDEITHAS TED BREEZE JONES

RHIF 15 – NADOLIG 2008






## 'DOLIG DEDWYDD ADARYDDOL!




# HEL STAMPIAU ADAR

***HEFYD YN Y RHIFYN HWN –***

- BYWYD GWYLLT ALASGA
- ADAR LWCUS
- TEITHIAU'R GYMDEITHAS

***A LLAWER, LLAWER MWY!***

## *ER BUDD ADAR A BYD NATUR*

# Golygyddol

Yn ôl y swyddfa dywydd, mae dechrau'r gaeaf eleni wedi bod yn un o'r rhai oeraf ers dros 30 mlynedd. Ddechrau Rhagfyr, cafwyd cyfartaledd tymheredd o 1.7°C, sydd gryn dipyn is na'r cyfartaledd tymor hir (1971-2000) o 4.7°C. Yn 1976 y cafwyd un o'r cyfnodau oeraf – dim ond 0.8°C oedd cyfartaledd Rhagfyr y flwyddyn honno.

Wn i ddim beth ydy eich barn chi am yr holl dywydd oer 'ma – mi fydda i wrth fy modd gyda thywydd oer tra bo eraill yn casau'r boreau iasol pan fydd ffenestri'r car wedi rhewi'n gorn a'r ffyrdd yn dywyllodrus (a pheryglus) – oni bai fod y loris melyn wedi bod allan yn 'sgaru halen dan olau'r sêr wrth gwrs.

Bydd amryw yn casau eira hefyd, gan fod hwnnw'n rhoi stop ar bopeth, fwy neu lai, ac yn gwneud bywyd yn anodd i ddyn ac anifail. Ar y llaw arall, bydd eraill yn gwirioni ar weddnewidiad prydferth y tirlun ac ar y tawelwch unigryw hwnnw sydd ond i'w gael pan fo cwrlid gwyn yn gorchuddio popeth.

Un peth sy'n sicr – mae'n gyfnod anodd i adar. Mae posib rhoi help llaw iddyn nhw wrth gwrs – drwy ddarparu cnau, cacennau saim, a thaflu briwsion a hen ffrwythau ar hyd yr ardd. Mae hyn heb os yn achubiaeth i nifer o'n hadar lleiaf. Ond onid yw'n anhygoel sut mae cymaint o adar yn llwyddo, rywsut, i oroesi'r gaeaf noethlwm heb gymorth o gwbl – a byw drwy gyfnodau hynod galed.

Yn ein haberoedd ac ar hyd y glannau mi fydd cynnydd mawr yn niferoedd y chwiaid a gwyddau o bob math, yn ogystal a throchyddion. Gall clegar y gwyddau fod yn fyddarol, ond gwefreiddiol, ar fore braf o aeaf. Daw rhydyddion bach a mawr yma yn eu cannoedd i ddianc rhag rewynt gaeafol eu tiroedd magu. A be am yr 'adar gaeaf' go iawn – coch dan adain, socod eira, tresglod – yma eto yn eu miloedd i wledda ar aeron gan flingo llwyni'r gwrychoedd bob yn un. Yn eu mysg eleni gwelwyd nifer o'r adar anghyffredin a thlws rheini – y gynffon sidan – unwaith eto yng Nghymru. Fe ddaeth heidiau ohonynt yma o flaen y gwyntoedd oer gogleddol a thywydd brwnt gwynt traed y meirw o'r dwyrain ym mis Rhagfyr. Ydach chi wedi eu gweld nhw eto?

Er yr holl boeni am y 'wasgfa ariannol' bondigrybwyll y dyddia' yma, a'r straen o baratoi at y Nadolig – mae lle i ni ddiolch fod gennym (ar hyn o bryd o leiaf!) gartrefi clyd a bwyd ar y bwrdd, ac nad oes yn rhaid inni ddianc o'r wlad i chwilio am borfeydd brasach dros fisoedd y gaeaf. Rydym yn ffodus iawn bod digon o fywyd ar gael inni – rhywbeth sy'n bwysig iawn i'w gofio pan mai dim ond pethau gweddol ddibwys sy'n ein poeni mewn gwirionedd. Ydy, mae cynnal bywyd dros fisoedd llwm y gaeaf yn dipyn anoddach i'r adar nag ydyw i ni.

**Ys gwn i be ddaw, yn 2009?**
Pwth gwirion iawn ydy darogan unrhyw beth nad ydy yn ein dyddiaduron yn barod ynde? Byw mewn hyder y cawn ni lwyddiant ym mhob menter – dyna fy ngobaith i o leia. Felly lwc dda i bawb; llewyrch i Gymdeithas Ted; gan edrych ymlaen at hel cofnodion i Atlas Adar y BTO a gobeithio y daw gweilch y Glaslyn yn eu holau am dymor llwyddiannus arall.

Ac ar y nodyn hwnnw gobeithio yn wir y ceir trefn ar y Cynllun Gweilch y Glaslyn nesa. Mae cynllun 3 mlynedd yr RSPB wedi dod i ben erbyn hyn a'r gobaith yw y bydd y cynllun newydd ddaw yn ei le, pwy bynnag fydd yn rhedeg hwnnw, yn dipyn mwy cymunedol ei fryd. O'r gymuned leol, wedi'r cyfan, y daw mwyafrif y gwirfoddolwyr a fu mor hanfodol i weithredu'r cynllun hyd yn hyn. Heb ewyllys da y gwirfoddolwyr go brin y ceir cynllun fydd yr un mor effeithiol a llwyddiannus a'r un a gafwyd.



## LLYGAD BARCUD - Cylchlythyr Cymdeithas Ted Breeze Jones

### Rhif 15 – Nadolig 2008

**Golygyddion –**
Rhodri Dafydd (CCGC) a Twm Elias (PTyB)

**Cyfranwyr –**
Dafydd Guto, Ieuan Bryn, Huw Dafydd Jones, Twm Elias, Rhodri Dafydd

Pob llun – hawlfraint yr awdur oni nodir yn wahanol.

CYMDEITHAS TED BREEZE JONES
**Llywydd Anrhydeddus –**
Iolo Williams

**Cadeirydd y Gymdeithas a Golygydd Ymgynghorol *Llygad Barcud*–**
Twm Elias, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, Gwynedd LL41 3YU, (01766) 772 610

**Trysorydd –**
Brian Paul, Ty Fry, Penrhyndeudraeth, Gwynedd LL48 6RT, (01766) 770 500

**Ysgrifennydd a Golygydd *Llygad Barcud*–**
Rhodri Dafydd, 2 Ty'n Ddôl, Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd LL23 7TN, (01678) 540 545

**Ysgrifennydd Aelodaeth –**
Anwen Breeze Jones, Tan y Deri, Bryn Eithin, Llandecwyn, Gwynedd LL47 6YF, (01766) 770 833

Am fwy o wybodaeth a ffurflen ymaelodi â'r Gymdeithas cysylltwch âg Anwen Breeze Jones.

**Croesawir llythyrau, cwestiynau, newyddion ac ati ar gyfer y rhifyn nesaf.**
**Anfoner unrhyw ddeunydd at yr Ysgrifennydd cyn diwedd Chwefror os gwelwch yn dda**

### Manteision ymaelodi â Chymdeithas Ted Breeze Jones.

Bob blwyddyn bydd aelodau'r Gymdeithas yn derbyn tri rhifyn o'r cylchlythyr ***Llygad Barcud***. Cyn hir, byddwch fel aelodau yn derbyn cerdyn aelodaeth fydd yn eich galluogi i fynychu sgyrsiau a theithiau'r gymdeithas yn ddi-dâl. Ond un o fanteision mawr aelodaeth o'r Gymdeithas yw y bydd y cerdyn hwn yn caniatáu i chi gael gostyngiadau sylweddol o'r siopau isod –

- **Cotswold Outdoor**, Betws y Coed – 15%
- **Gelert**, Port – 15% ar nwyddau Gelert, 10% ar nwyddau eraill
- **Siop lyfrau Browsers**, Port – 10%
- **Fifth Element**, Port – 10%
- **Bear Print**, Port – 10%
- **Nigel Hughes**, Port – 10% (ar wahan i gamerau digidol – prisiau cystadleuol eisoes!)
- **Arwyn Edwards**, Penrhyndeudraeth – 10% ar wydrau a nwyddau eraill

# Oes yr arth a'r blaidd... a'r eryr!

**Cip yn ôl ar daith i Alasga**

**gan Ieuan Bryn**

**Haf 2007**

**5 Awst**

**Pebyll, dwy stof fach, poteli nwy, tegell anferthol, sosbenni, bocseidiau o fwyd a diod, trelar bychan y tu ôl i fws mini, a'i chychwyn hi tua'r canolbarth – canolbarth Alasga!**

Mae tri o'r grwp yn dod o Gymru – un o Gaerdydd a chwpwl ifanc o Ben-y-bont ar Ogwr. Un ferch yn dod o Fecsico, ac un arall o Ganada. Y gweddill o Loegr – ar wahân i beiriant gwnïo o wraig fechan, barablus, drigain oed sydd newydd fod ar antur yng nghanol coedwigoedd Borneo... Daw hi o ucheldir yr Alban.

Gwersylla wrth Rewlif Matanuska i'r gogledd-ddwyrain o Anchorage, a chyn iddi nosi, mynd i chwilio am foncyffion i'w rhoi ar y tân. Mae hi'n chwarter i un ar ddeg, ac yn olau fel canol dydd.

**8 Awst**

Ymweld â Pharc Cenedlaethol Denali. Chewch chi ddim gyrru drwyddo yn eich car eich hun, ond mae croeso i chi grwydro i wahanol rannau ohono yn un o gerbydau swyddogol y parc, stopio ble mynnwch chi, mynd i gerdded, a dod yn ôl i'r man cychwyn ar ddiwedd y dydd.

A dyna dwi'n bwriadu ei wneud...

Ond distaw iawn ydi hi o ran gweld creaduriaid gwyllt – dim ond ysgyfarnog eira a dyrnaid o rugieir Alasgaidd, hyd yma.

Ymhellach ymlaen, mae yna glwstwr o ddefaid Dâl gwyllt ar un o'r llechweddau. Mae eu cyrn praff yn dipyn o ryfeddod i mi, ac maen nhw'n dweud y cymer saith mlynedd i dyfu un gyrlen o górn!

Eryr aur yn cylchu ar y gorwel, a thri caribw'n gorwedd ar y llethr oddi tano fo.

Mae gyrrwr ein cerbyd yn aros, a rhywun yn sibrwd y gair 'blaidd'. Ci gwyllt feddyliais i oedd o, pan ges i'r cip cyntaf arno! Ond wrth iddo ddod yn nes ac yn nes, doedd yna ddim modd camgymryd. Mi fyddai awdur *Galwad y Blaidd*, Cledwyn Fychan, yn gwirioni dwi'n siwr!



http://www.hallobay.com/images/wildlife/Camp_wolf_1L.jpg

Mae o'n tuthio'n ysgafndroed dros y twndra, yn oedi bob hyn a hyn i snwyro'r ddaear, yn troi'n ôl i snwyro eto, ac yna'n mynd ar ei hynt. Doedd o ddim mwy na deugain llath i ffwrdd.

Blewyn llwyd a du, a iasau'r cynfyd yn ei ganlyn o.


* * * * * * * * *

Cerbyd un o wardeiniaid y Parc wedi stopio fymryn o'n blaen ni, a does dim angen sbienddrych. Mae eirth lliw mêl gryn dipyn yn fwy na'r rhai duon, ac mae ganddyn nhw grwb amlwg iawn. Hyd yn oed yng nghanol yr eangderau, mae hi'n anferth.

Ymlaen â ni am blwc, ac ar grib gyfagos, mae cyrn un caribw llonydd yn batrwm pigog, du yn erbyn yr awyr. Mae o'n gostwng ei ben, ei godi i'r awyr eto, carlamu i lawr y llethr, ac aros gyferbyn â ni. Mi rown i'r byd am weld y rhain yn mudo wrth eu miloedd i'w mannau gaeafu, yn rhimyn hir dros yr eira...

**9 Awst**

Addasu ein cynlluniau y bore 'ma, a dilyn lôn raean i Barc Cenedlaethol Wrangell St. Elias. 'Denali Highway' (highway!) ydi'r enw swyddogol arni, ac mae'n rhedeg yn gyfochrog â mynyddoedd Cadwyn Alasga – o Cantwell, yn y gorllewin, i Paxon yn y dwyrain – am dros gan milltir. Dim ond o Fai tan ddechrau mis Hydref y bydd hi ar agor oherwydd yr eira.



http://abandonrealityphotography.googlepages.com/busroof-denali-s10L.jpg/busroof-denali-s10L-full.jpg

Bore heulog, glas. Aros ar ymyl y lôn i gael golwg iawn ar Denali, mynydd uchaf Gogledd America, a chael gweld tri chwarter uchaf ei 20,320 troedfedd mewn amgylchiadau perffaith. Rydan ni'n lwcus; mi fydd y copa dan gwmwl ddeuddydd o bob tri, ar gyfartaledd..

Mwclis hir o gopaon gwyn ydi gweddill y siwrnai. Mewn un lle, rydan ni'n croesi afon fawr Susitna, ac yna, yng nghanol nunlle, yn dod at gaffi lle mae yna gesan o wraig mewn ffedog yn gwneud y darten lus orau yr ochr yma i lwyni llus Brynrefail yn Arfon! Ar ben tafell sy'n llenwi 'mhowlen, caf ganddi fryncyn o hufen iâ a blas mwyar y brain arno. Dim rhyfedd bod y caffi anghysbell yn dod yn fwy poblogaidd bob dydd!

Wedyn, eangderau gwag. Ambell goeden. Ambell lyn hefyd, ac wrth un o'r rheiny, ddau alarch pigddu *(trumpeter swan)*.

Gwersylla ar lan Afon MacLaren, a gosod y babell fel bod y 'drws' yn agor ar ribidirês o fynyddoedd eira. Milltiroedd o bob gwawr o wyrdd rhyngof a'u rhewlifoedd, ac ar fy 'rhiniog', glystyrau piws o chwyn tân.

Yn yr oriau mân, codi. Y cribau'n gysgodion tywyll ar gynfas glasbinc yr awyr. Gewin main, main o leuad, a mymryn o darth yn cerdded drwy'i gwsg, yn freuddwydiol fel finnau!

**10 Awst**

Codi'n blygeiniol, a phob diferyn o leithder ar du allan fy mhabell yn berl o rew.

Ceisio dychmygu pa mor egr ydi hi yma, berfedd gaeaf. Yn Fairbanks (sy'n weddol agos i Cantwell lle'r oedden ni ddoe), mi fydd y tymheredd yn gostwng yn rheolaidd i -60°F yn y gaeaf. A hyd yn oed yma, maen nhw'n dal i ddefnyddio cwn sled i fynd o le i le, pan fydd yr eira'n garchar.

Mae yna bantiau niferus yn y briffordd y teithiwn arni o Glenallen tua'r de, am bod y 'rhew parhaol' dan wyneb y ffordd bellach yn dadmer. Arwydd bach arall bod hinsawdd y byd yn newid...

Eryr penwyn yn codi ar ymyl y ffordd, a hedfan ar yr un lefel yn union â ni. Wyth troedfedd o adenydd!

Yn y man, cyrraedd pentref McCarthy, a gosod ein pebyll.

Dim ond pompren (ac afon fydd yn rhewi'n ddigon caled yn y gaeaf i chi allu gyrru cerbyd drosti) sy'n cysylltu'r pentref â'r byd mawr, a dyma sydd yno: salwn o ddechrau'r 1900au... banc Wells Fargo... wagen bren ar ei hechel... pwerdy trydan bychan... ac yng nghanol y rhain, gwesty Ma Johnson wedi'i adnewyddu yn arddull gwesty gwreiddiol 1923. Lôn bridd ydi'r brif stryd.

Mwynwyr copr y 1900au cynnar a gododd y pentref, ond heddiw, dim ond rhyw ddwsin o bobl sy'n mentro byw yma drwy'r flwyddyn.

**11 Awst**

Neb wedi codi, a'r pebyll fel cerrig beddau.

Swn carlamu trwm...

Oherwydd y coed sydd o 'nghwmpas, fedra'i ddim gweld yr un creadur.

Ond yna, arth ddu, dindrwm yn trybowndian drwy'r gwersyll, a'r un o'r boregodwyr cysglyd yn fy nghredu i pan ddeffroeson nhw!



http://www.free-desktop-wallpaper-download.com/data/media/29/spotted_a_black_bear.jpg

Erbyn hyn, rydan ni ym mherfeddion parc 13 miliwn-erw Wrangell St. Elias, lle mae yna afancod, bison, bleiddiaid, mws, geifr mynydd... Yma hefyd, ceir naw o fynyddoedd ucha'r Unol Daleithiau, a thros gant o rewlifoedd. Mae un o'r rhain (Rhewlif Root) gyferbyn â'n lle gwersylla ni, a mynd i fyny hwn ydi fy mwriad i heddiw.

* * * * * * * *

Gyda'r nos, galw yn y *Golden Saloon*.

Mae yno 'fand tir glas' yn creu llond y lle o ddifyrrwch. Un ar y ffidil, un ar y banjo, un ar y mandolin, a merch efo cap stabal a sgert yn chwarae bâs dwbwl! Digon o fynd, a phawb yn dawnsio o'i hochr hi. Gwerin ydi gwerin ym mhob gwlad, a gwyn, gwyn ei byd hi.

**13 Awst**

Yn Valdez, mae yna sawl cwmni'n llogi caiacs. Dwi'n dewis 'Anturiaethau Anadyr' am eu bod nhw'n rhoi pwys mawr ar warchod yr amgylchedd, ac ar gyflogi pobl leol. Ond dechrau simsanu ydw i pan maen nhw'n trio egluro i mi beth i'w wneud tasa'r caiac yn troi...

Mae Swnt y Tywysog William (dyna enw!) yn 15,000 o filltiroedd sgwâr. Mae ynddo 15 o brif ynysoedd a 200 o rai mân. Ceir yma hefyd amrywiaeth eang o gynefinoedd i adar, creaduriaid y môr ac anifeiliaid y tir.

Ar ôl awr o forio yn y cwch mawr, dod ar draws degau o ddyfrgwn y môr yn cael parti a hanner! Rhai'n chwarae yn y dwr; eraill yn torheulo ar dalpiau o rew, ac wrth i ni nesu atyn nhw, yn sleifio i'r dwr ar yr eiliad olaf...

Ymhen hir a hwyr, rydan ni'n angori, yn tynnu'r caiacs o'r cwch, a dechrau rhwyfo tua'r talpiau o iâ sy'n nofio ar wyneb y ffiord. Mae'r dwr mor llyfn â'r olew hwnnw sydd i fod i wneud i chi deimlo hanner eich oed, ond pwyll piau hi wrth i ni weu rhwng y talpiau cyfrin, gwyn gan eu bod nhw'n symud yn dawel fach, ac mi allech yn hawdd iawn gael eich cau o bob ochr ganddyn nhw!

Ar ôl rhwyfo o Fae Columbia i Fae'r Grug, mae'n bryd cael tamaid i'w fwyta.

Gosod y caiacs yn ddigon uchel ar y lan, a cherdded dros y gefnen. Islaw i ni, mae Bae Columbia'n un gybolfa o dalpiau o iâ sy'n edrych yn union fel lilïau gwynion ar glustog moethus, glas. Y tu ôl iddyn nhw, rhewlif milltir o led yn crafu i lawr Mynydd Marcus Baker, a nadreddu i'r culfor. Ac o un pegwn i'r llall ar y gorwel, copaon eira ac awyr ysgafn las.

Gwledda ar olygfa na welswn ei thebyg, a rhwyfo wedyn i fyny afon sy'n llifo o un o'r rhewlifoedd. Yr unig swn ydi tincial dwr yn tasgu'n dameidiau bach gloyw o'n rhwyfau. Mae'n waith caled ond yn ymlacio corff a meddwl yn llwyr, ac ar y pryd, doeddwn i ddim yn dymuno bod yn unman arall ar y ddaear, nes i ni sylwi ar arth yn loetran ar graig, yn rhy agos o lawer...

Ymlaen at afon arall, a dynesu gan bwyll bach at eryr penwyn sy'n clwydo'n gwbl ddidaro uwch ein pennau. Ac mae'n siwr i ni weld tua deg o rai eraill, wrth i ni rwyfo ymhellach i fyny'r afon – un pâr yn galw ar ei gilydd, eryr arall yn hedfan heibio'n isel, isel ac un arall yn darnio eog ar y dorlan.



Yn y man, rydan ni'n cyrraedd nant sy'n berwi o eogiaid yn ymbalfalu am lwybr at eu deorfeydd.

Rhaid ein bod ni wedi rhwyfo tua chwe milltir i gyd, ac ar ein taith yn ôl i harbwr Valdez, roedd yr eogiaid a oedd yn rhydd o grafangau'r eryrod yn llamu wrth y dwsinau, mewn llawenydd!

**15 Awst**
Hwylio i Whittier, ac ar y ffordd yno, mynd heibio Bligh Reef lle'r aeth yr Exxon Valdez ar y creigiau ym Mawrth 1989, gan arllwys 11 miliwn galwyn o olew crai i'r swnt. Llygrwyd dros 1,500 milltir o arfordir, ac amcangyfrifir i tua 450,000 o adar môr, 4000 o ddyfrgwn, 300 o forloi, 250 o eryrod penwyn, a 22 o forfilod orca farw. A taswn i'n edrych dan wyneb y tywod ar y traethau lleol, mi welwn fod yno olew o hyd, er i ugain mlynedd bron fynd heibio.

**16 Awst**
Heb weld morfil eto, a'r cynllun heddiw, felly, ydi mynd i chwilio am un yn ffiordau Parc Cenedlaethol Kenai.

O ran tywydd, dydi hi ddim yn argoeli'n dda. Dal i dduo mae'r awyr wrth i ni ddilyn glannau deheuol Bae Atgyfodiad, a chorddi mwy a mwy mae'r môr.

Y tu draw i Drwyn Callisto, daw Rhewlif yr Arth i'r golwg, ac mewn cilfach fach unig ar lannau gogleddol Penrhyn Aialik, mae yna ddyfrgi'n nofio ar ei gefn wrth agor cragen fylchog i ginio!



http://s190.photobucket.com/albums/z257/americanwildlife/Mammal/Z-MikeBAird-SeaOtter2.jpg

Maen nhw'n amcangyfrif bod yna 56,000 o adar yn magu ar y clogwyni lleol – gwylanod, gwylogod, palod,

pïod y môr, mulfrain, hebogiaid tramor...

Dwi'n cael fy swyno'n arbennig gan y ddwy rywogaeth o balod – palod corniog *(horned puffins)* a phalod copog *(tufted puffins)*. Mi fydd y rhain yn curo eu hadenydd dros 300 o weithiau y funud wrth hedfan, ac yn plymio rai cannoedd o droedfeddi dan wyneb y dwr i bysgota, gan ddefnyddio'u hadenydd yn unig i'w gyrru ymlaen drwy'r dyfnderoedd. Dywedir y gall y pâl corniog gadw hyd at ddwsin o bysgod bach ar y tro, yn ei big... ac mae cudynnau aur y palod copog yn ddigon o sioe!



http://www.sewardwatertaxi.com/alaskabirdingtours.html

Mae yna fulfran wridog *(red-faced cormorant)* yn mynd a dod o'n cwmpas, ac ar greigen yn y swnt, mae yna dri saer du *(black oystercatcher)* a golwg ddigon be-wna'i arnyn nhw.

* * * * * * * * * *

I Fae Aialik nesaf i weld rhewlif sy'n llifo'n uniongyrchol i'r môr, a'i dalcen yn codi 350 troedfedd o'r dwr.

Angori o fewn tua decllath ar hugain iddo.

Niwl yn dechrau crynhoi. Dafnau o law smwc. Talp o rew'n dymchwel oddi ar dalcen y rhewlif, a'i ddwndwr fel taran canol Awst. Mor anial, mor syfrdanol o hardd! Ac un eryr penwyn yn llithro'n ddistaw drwy'r olygfa.

Dim golwg o forfil, er bod yna bump o rywogaethau yn y cyffiniau – morfilod llwyd, morfilod cefngrwm, morfilod pigfain, morfilod asgellog a morfilod orca.

Gorfod gadael y bae heb weld yr un, a pharhau i hwylio i'r gogledd-ddwyrain heibio Ynys Harbwr, Ynys Natoa ac Ynysoedd Chiswell.

* * * * * * * * * *

Chwistrelliad o aer yn codi o'r culfor. Llonyddwch am rai munudau, a chwythiad uchel eto.

Troi'r llong yn araf, a phawb yn craffu wrth i gefn bwaog enfawr, a chefn bwaog llai, anelu'n syth aton ni.

Maen nhw mor, mor agos. Morfilod cefngrwm - mam a'i chyw. Oes yna hanner canllath rhyngon ni?

Mae'r ddau'n dod i'r wyneb un waith yn rhagor, ac yna'n diflannu, gan chwifio eu cynffonnau wrth ffarwelio!



http://www.canada-photos.com/data/media/1/humpback-whale-watching-bc_523.jpg

'Allwn i ddim dymuno cael delwedd bertach yn anrheg i fynd adre. Torri taith yn ei blas – hwnna ydi o!

.............................................................

### *Llysieuyn y Diafol*

Rydym yn gwybod bod 'baco yn ddrwg inni, ond dyma rigwm difyr am Faco'r Deryn Du [baco siag Cwmni Amlwch]:

Mae Owen Edwards Coed-y-pry
Yn ffond o faco'r Deryn Du,
A Beti'r wraig sy'n caru'r mwg,
Mae'n danfon draw ei hysbryd drwg.
(o ardal Llanuwchllyn)

## Stampiau Post gwahanol wledydd –
## **Cyfrwng byw! Coethder Byd Natur!**

Dafydd Guto, Llanrug

**Yn ei lyfrau Enwau Adar (1994) a Rhagor o Enwau Adar (2006 – y ddau gan Wasg Carreg Gwalch), ceir gan Dewi Lewis enwau eraill llawn mor ddiddorol am y Crëyr glas, a atgynhyrchwyd isod ar ffurf stamp post, a luniwyd yn Tsiecoslofacia.**





Nid âf i fanylu'n ormodol yn y fan yma – dim ond dweud yn blwmp ac yn blaen fod yna domenni ar domenni o stampiau post ar gael, wedi eu cyhoeddi dros y blynyddoedd gan sawl gwlad led-led yr hen fyd 'ma, a bod yn eu mysg nifer swmpus o stampiau post adar – y cyfan wedi eu portreadu'n goeth ar dameidiau bychain o bapur gludiog.

Ar y tudalennau hyn ceir ychydig esiamplau y bu i mi eu casglu.

**Aland: Y fulfran fawr**



Aland: elyrch y Gogledd.



Aland: crëyr glas.




Y Bahamas: Delor y cnau (2006)







Y Bahamas: Delor y cnau (2006)










Lithuania: Tylluan glustiog (2005)



Mi fuaswn yn annog aelodau'r Gymdeithas ('does wahaniaeth pa oedran ydach chi!) i fynd ati i gasglu stampiau post, gan ddefnyddio thema benodol – a be'n well nag adar?! Mae dewis thema yn creu sialens unigryw, ac yn peri i chi ganolbwyntio fwy-fwy ar y casglu, drwy gyfyngu'r hela i faes o'ch dewis.

Y sialens a osodais i'm hunan dros y blynyddoedd oedd casglu stampiau post sy'n portreadu byd natur yn ei gyfanrwydd, a dyna sut daeth yr albwm Adar Cymru ac Ewrop i fodolaeth – ie, fesul stamp bu i mi fagu amynedd a chreu difyrrwch i mi'n hun. Daeth cyfle penigamp (gyda fy nghymar, Linda) i grwydro o un ffair stampiau post i'r llall. Do wir, mi fuom ill dau un tro o dan dwnel mewn maes rasio ceffylau er mwyn taro ar stondinau gwerthu bob math o stampiau post! 'Cofia ddwad a dy fflachlamp tro nesa!' crefodd Linda!

Chwilota wedyn mewn siopau hen daclau a geriach; cael hwyl ynghanol gwe pryfed cop, a chanfod ambell i stamp post ymysg y llwch! Bargeinio wedyn (heb fynd i daeru!), tyrchu drwy fwy o gatalogau stampiau post; pori mewn cylchgronau yn ymwneud a ffilateliaeth (ie, dyna'r enw gwyddonol ar yr hobi hwn!). Pendroni. Dethol yn ofalus. Ymweld â swyddfeydd post mewn gwledydd eraill a mwynhau holi beth oedd ar gael yno. Cofio am byth y swyddfa Bost yng Nghrakow (Gwlad Pwyl) a'r olwg ar wynebau pobl y post o glywed cyfarchiad yn y Gymraeg – ond wedi'r cyfan stamp oedd stamp yn y pen draw! Wedyn, cyfeillion yn cyfrannu. O stamp i stamp âi'r casgliad yn fwy. Heb gyfeillion 'dydy bywyd ddim yn llawn. Yn anad dim byd arall – derbyn llythyrau gan gyfeillion o agos a phell – rhywun, neu rywrai ar wyliau yn rhywle arall gwahanol yn y byd – a stampiau post ar thema bywyd gwyllt ar gael yno!

'Does dim dwywaith – y mae stamp post yn adrodd hanes, ac yn cynrychioli y wlad y tardda ohoni. Ond erys digon o eisiau yma yng Nghymru. Pa bryd yn wir y gwelwn ni luniau rhai o'n hadar mwyaf poblogaidd, neu'r prinnaf, ar stampiau gwir Gymreig? Ond yw hi'n hen bryd i ni newid y sefyllfa sydd ohoni, a dangos i'r holl fyd mai dyma Gymru, a bod iddi ei choethder byd natur ei hun. Y gorau o'i wlad a fynnodd Ted ei chyflwyno – ac mae gennym ni ein lle yn parhau a'r cyflwyniad hwnnw – ei foldio'n ofalus, er mwyn plant ein plant a Chymru ein hyfory.

Mi hoffwn i, maes o law, weld y deunydd byd natur a gesglir – fel llyfrau, llyfryddiaethau, llyfrau lloffion ac albwmau stampiau post sy'n ymwneud ag adar, anifeiliaid, pryfed, pysgod, ymlusgiaid a Cati sydd yma ar yr aelwyd, gael eu trosglwyddo i Ganolfan Ted Breeze Jones, fel eu bod yn rhan o weledigaeth o eiddo Ted mai enfysau o ryfeddodau ac nid drychiolaethau ydyw'r byd pluog o'n cwmpas, a chynhwysa hyn hefyd, debygaf i, stampiau post gwahanol wledydd y byd!

Y tro nesaf os byw ac iach – Casglu cardiau post byd natur.

# Adar Morfa Harlech
## Sadwrn, Tachwedd 1af 2008.

Huw Dafydd Jones

**Dyma daith gyntaf tymor hydref 2008 dan arweiniad Rhodri, ysgrifennydd y Gymdeithas, i ymweld â'r traeth a thwyni morfa Harlech. Daeth nifer dda o aelodau at ei gilydd yn y maes parcio yng nghefn twyni Morfa Harlech ar fore braf gyda'r bwriad o gerdded ar hyd y traeth.**




Edrych dros y môr i gyfeiriad Pen Llyn a gweld cannoedd o Fôrhwyaid


Fel Swyddog Cadwraeth gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru sy'n ymwneud â bywyd gwyllt a rhywogaethau'r twyni, pwy well na Rhodri i arwain y daith hon. Yn ei waith bob dydd mae'n gyfarwydd iawn â'r adar a'r planhigion yr oeddem i'w gweld ar y daith hon.
Cyn cychwyn dangosodd un o'r aelodau (JP) lun arbennig iawn o dylluan frech wedi ei dynnu yn erbyn cefndir o risgl coeden. Prin yn wir oedd yr aderyn i'w weld.




JP a'r dylluan â chuddliw perffaith

Prin hefyd y buasem yn gweld tylluan yn y twyni, ond pwy a wyr – mae tylluanod clustiog i'w gweld o dro i dro yn hela yma yn ystod y gaeaf...

Wrth gychwyn o'r maes parcio a chroesi cwrs golff Dewi Sant gwelwyd nifer o'r adar cyffredin, yn eu mysg y robin, y ji binc, y fwyalchen a chor ehedyddion y waun. Wrth ddod i olwg y môr 'roedd yn amlwg bod nifer o wahanol adar yn nofio'r tonnau.



Y morhwyaid duon tua 300 ohonynt

Ambell i wylan (penwaig), morhwyaid duon (300), hwyaid brongoch (6), a gwyeich mawr copog (8). Gan edrych allan i'r môr a gobeithio gweld rhywbeth amgenach, ymlwybrwyd ymlaen ar hyd tywod y traeth a chyn hir yng nghysgod y twyni gwelwyd haid o rydyddion bychan yn pigo'r gwymon hyd linell y llanw uchel. Cododd yr haid a hedfan at ffin y môr, Yn eu mysg

'roedd Pibyddion y Tywod - *sanderling* (36) a Chwtiaid y Traeth – *turnstone* (15). Wrth edrych yn fanylach ar yr haid gwelwyd fod un Pibydd y Mawn yn eu canol.



Cwtiaid y traeth




Pibyddion y Tywod

Cyn troi i mewn i'r twyni dyma edrych yn fanylach ar haid o wylanod penwaig a chanfod fod un wylan gyffredin neu wylan y gweunydd yn eu mysg. Yn wahanol i wylan y penwaig mae hon yn llai ei maint; mae ei llygaid yn dywyll, y coesau'n felynwyrdd ac mae'r pig yn llai heb y smotyn coch arno. Ar y tywod ymhellach i gyfeiriad Morfa Bychan gwelwyd haid o filidowcars (15) yn ymestyn eu hadenydd

Wrth lwybro drwy'r llaciau yng nghefn y twyni codwyd chwe giach, ac 'roedd corehedyddion y waun ymhobman.




Brian yn ymlwybro dros y twyni.

Codwyd tua phymtheg corhwyaden wrth nesu at y llyn, a syndod oedd gweld un gwydd Canada yn nofio yno. Mae'n debyg mai un ffug (ddisymud!) oedd hon, wedi ei gosod gan helwyr i ddenu'r gwyddau yno.



Gwydd Canada ffug neu un go iawn?

Ar un o'r caeau amaethyddol cyfagos gwelsom oddeutu 15 cornchwiglen, ac ar gae arall haid arall o tua 70 gylfinir.

'Roedd cael dychwelyd i gysgod y coed pîn yn braf iawn ar ôl bod heb gysgod hyd at hynny. Rhyfedd oedd meddwl fod cymaint o brysurdeb wedi bod ar y twyni hyn yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Bellach, mae bywyd gwyllt yn ei ôl a'r amrywiaeth o blanhigion, mamaliaid ac adar yn uchel tu hwnt. Gwelsom ymysg mân adar y coedydd, haid o esgyll aur neu nicos. Ar goeden, daethpwyd ar draws Gwas y Neidr a'i adenydd ar led, yn torheulo yng ngwres heulwen y prynhawn.



Dychwelwyd i'r maes parcio ar hyd ffyrdd concrid a osodwyd adeg y rhyfel wedi diwrnod arbennig yn nhwyni Morfa Harlech.

**(Hoffwn ddiolch i Mr. Alun Jones, Fferm Glan y Môr am ei ganiatâd yn gadael i'r Gymdeithas ymweld â Llyn y Warin, ble nad oes mynediad i'r cyhoedd fel rheol. GOL.)**

# Adar Coedydd Llyn Mair

## Sadwrn, Tachwedd 15fed 2008.

Huw Dafydd Jones

**A hithau'n fore gwlyb, annifyr, daeth criw da at ei gilydd i'w harwain ar daith gan Twm Elias ar garreg ei ddrws ym Mhlas Tan y Bwlch. Gan gyfarfod yn y maes parcio ger Llyn Mair, 'roedd taith drwy'r coed derw at Orsaf Tan y Bwlch ar y lein fach cyn mynd ymlaen drwy'r coedydd conifferaidd ac yn ôl i'r Plas yn Nhan y Bwlch yn amlwg ei hapêl...**




Y criw yn ymgynnull ym maes parcio Llyn

Croesi'r ffordd yn gyntaf at lan Llyn Mair i weld pa adar oedd yn nofio'r wyneb. Digon tlawd oedd hi, hefo dim ond ychydig hwyaid dof / croes ger y lan, gyda thua chwe phâr o hwyaid gwylltion ymhellach allan ar y llyn. 'Roedd tri cheiliog deryn du a robin goch yn y llwyni gwern ar lan y llyn hefyd.

Ail groesi'r ffordd yn ôl i'r coed a dringo'r llechwedd tuag at stesion Tan y Bwlch a rhyfeddu pan ddywedodd Twm fod Gwybedog Brith yn y canghennau. Buan y sylweddolwyd mai arwydd am y goedlan dderw oedd y gwybedog!

Mantais mynd ar daith efo Twm yw yr wybodaeth a roddir ganddo am natur yn gyffredinol yn y lleoedd yr ymwelir â hwy. Y tro hwn dangosodd lle y tyfai lysieuyn prin, sef cen llabed yr ysgyfaint (lungwort, *Lobaria pulmonaria)*.




Y gwybedog brith yng nghoedydd Llyn Mair

Digon prin oedd yr adar mân yn y coedydd, ar wahân i'r titw mawr a'r titw glas. Mae'n debyg i ni weld mwy o amrywiaeth wrth fwrdd adar a chewyll bwydo mewn bwthyn a safai uwchlaw y stesion. Dilyn y ffordd am Groesor am ychydig a gweld dryw, dau ddryw eurben a thitw penddu, cyn troi i'r chwith ac i lawr drwy'r coed pîn. Mewn llannerch yn y coed adroddodd Twm iddo weld Gwalch Marth yno, yn disgyn o'i wylfan ar un o'r

canghennau uchel i hela un o'r niferoedd o adar bychan a hedai ar draws y llannerch. Mae'r gwalch Marth hefyd, yn wahanol i Fwncath, yn medru hedfan ar ôl ei brae i mewn i'r prysglwyn. Croesi'r ffordd 'fawr' redai i'r Rhyd a Llanfrothen, a gweld dau ddryw eurben arall. Ymlaen heibio Llyn Hafod y Llyn a thrwy goed y Plas i Stablau'r Plas am ginio. Gwelwyd piod, brain, sguthanod, niferoedd o'r gwahanol ditws a dringwr bach.




Mwynhau cinio yn y Stablau.
"Oes raid i ni fynd allan eto, Twm?"

Anodd iawn oedd ail gychwyn ar ôl cael cinio yng nghysgod cynnes y Stablau. Ar y ffordd yn ôl gwelwyd sensor a chamera arbennig oedd wedi eu gosod i geisio tynnu llun Bele Goed petai'n cael ei ddenu at yr abwyd! Tybid mai taith ddigyffro yn ôl i'r maes parcio fyddai hon ond yn wir bu rhai yn ddigon ffodus i weld Bronwen y Dwr ym mhyllau'r afon a redai o Lyn Mair.




Bronwen y Dwr yn sefyll ar foncyff uwch un o'r pyllau

Ymhellach ymlaen ar hyd y llwybr drwy'r coed heibio'r llyn, gwelwyd Dringwr bach unwaith eto, ac ar hen foncyff pydredig gwelwyd hen dyllau crynion y gnocell fraith.




Tyllau crynion y gnocell

Digon annifyr oedd y tywydd a'r golau yn annigonol ar gyfer tynnu lluniau. Er hyn, cafwyd diwrnod difyr ymysg ein cyfeillion yng Nghymdeithas Ted.

YMDDIRIEDOLAETH natur WILDLIFE TRUST GOGLEDD CYMRU NORTH WALES

**22ain Ionawr 2009, 7:30 Galeri, Caernarfon**

Achlysur a drefnwyd gan ac er budd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

## Rhyfeddodau Byd Natur Cymru

gan

**Iolo Williams**

Sgwrs a lluniau gan gyflwynydd natur amlycaf Cymru ar y teledu, ac un sy'n hoff o wylio byd natur. Mae gwybodaeth eang Iolo am fyd natur Cymru a'i ddull unigryw o weithio wedi sicrhau ei fod wedi cael cyfle i gyflwyno rhaglenni gyda'r cwmni teledu annibynnol, Telesgop, ar gyfer S4C, a sawl cyfres gyda BBC Wales, yn cynnwys Wild Wales, Wild Winter, Iolo's Special Reserves, Iolo's Natural History of Wales a'i gyfres yn 2005, Iolo's Welsh Safari.

**Tocynnau £10.00 ac £8.00 am ostyngiadau**

Cyflwynir yr achlysur hwn drwy gyfrwng y Gymraeg ond bydd gwasanaeth cyfieithu i'r Saesneg ar gael.

Frances Cattanach
Cyfarwyddwraig
Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

# Adar Lwcus

Rhodri Dafydd

**Pan ddaw'r gwanwyn, a fydd gennych wenoliaid yn nythu ar dalcen eich ty tybed? Ydyach chi'n poeni am yr holl lanast meant yn ei greu? Wel stopiwch boeni – oherwydd rydych yn frentiedig dros ben. Mae hyn, yn ôl hen goel Gymreig, yn arwydd eich bod yn bobl lwcus a bod y ty yn un llawn hapusrwydd.**



Ie, hen gred am wenoliaid yw eu bod yn cael yn nythu o dan fargod ty yn arwydd hynod o dda. Hen aderyn lwcus ydy'r wennol. Ceir hefyd goelion am wenoliaid yn hedfan yn uchel fel arwydd o hindda ar ei ffordd.

Yr hyn sy'n ddiddorol wrth gwrs yw fod nifer o'r arwyddion am adar 'lwcus' yn deillio neu yn cyfeirio mewn rhyw ffordd at dywydd ffafriol sydd ar ei ffordd. Y rhai amlycaf wrth gwrs yw dywediadau megis:

*'Yr wylan fach adnebydd*
*pan fo'n gyfnewid tywydd*
*Hi hed yn deg ar adain wen*
*O'r môr i ben y mynydd'*

Un arall yr adrodda Evan Isaac amdano yn ei lyfr *'Coelion Cymru'* (1938) yw:

*'Dwy frân ar ben bore yn hedfan,*
*A'r nyth yn y goedwig o'u hol;*
*Cymylau a gollir o'r wybren*
*A gelwir pladuriau i'r ddôl.*

Ond af i ddim i draethu ymhellach ar arwyddion tywydd – mynnwch gopi o *'Am y Tywydd',* (2008) gan Twm Elias am enghreifftiau lu o ddywediadau a choelion tebyg!

Diddorol yw nodi fod llawer mwy o hanesion am adar fel arwyddion o anlwc nag a geir ohonynt fel lwc dda – rwy'n sicr fod llawer ohonoch y gyfarwydd a'r ofergoel fod dim ond cael llun aderyn yn y ty yn ddigon i ddod ag anffawd (yr adeg hon o'r flwyddyn mae'n siwr fod acw nifer o gardiau 'Dolig a llun Robin arnynt?!). Ond mae yna rai adar eraill heblaw'r wennol sydd yn cael eu hystyried yn lwcus.

Adroddwyd eisoes yn *Llygad Barcud 9* (Nadolig 2006) fod y dryw bach a ddaliwyd ac a osodid mewn ty bychan yn lwcus i drigolion y tai hynny yr ymwelid a hwy - yn enwedig felly os byddai pâr ifanc oedd newydd briodi yn gobeithio cenhedlu llond ty o blant – (oherwydd wrth gwrs fod y dryw yn enwog am fagu nythaid dda o gywion yn bur rheolaidd!)

Aderyn a ystyriwyd yn un ffodus, yn nwyrain Ewrop ble mae'n gynhenid, yw'r Ciconia (stork). Os dewisa pâr o'r adar hyn do eich ty fel safle addas i nythu yna ystyrid hynny'n fraint o'r mwya gan y doi yr adar hyn a lwc dda gyda hwy. Fel yn achos y dryw cysylltid y 'lwc' hwn a ffrwythlondeb hefyd, gan esgor ar y gred mai'r Ciconia sy'n cario babis i bawb o bobl y byd – delwedd a welir yn aml iawn mewn straeon a chartwnau i blant. Mae'n dda cael esboniad diniwed o dro i dro yndydy?!

A dyma ni unwaith eto yn dod at deulu'r frân – os bu teulu y rhoddwyd enw drwg iddynt erioed wel y brain yw'r rheini! Gwyddom fod nifer o goelion yn deweud mai adar anlwcus ydynt, ond mae yna hefyd rai coelion s'n dweud y gallant ddod a lwc, os cant eu trin yn iawn hynny yw!

Gall y bioden ddod a lwc dda, ond mae'n rhaid ichi dynnu'ch het pan welwch hi – gwyliwch eich hun fel arall! Rhaid dangos parch at yr hen bioden 'ma wyddoch chi!

Yn ei *'Casgliad o Len Gwerin Sir Garfyrddin'* (Parch DG Williams 1886) ceir yr hanes canlynol am beth a ddylid ei wneud i ddod a lwc dda os gwelir pioden – sef gwneud arwydd croes ar y llawr â'ch troed a phoeri ar ganol y groes.

Yn yr un casgliad dywedid os bydd pioden yn croesi o'ch blaen o'r chwith i'r dde yna bydd lwc dda i ddilyn (ond os bydd yn croesi y ffordd arall yna gwae chi! Yn yr un modd, os coda pioden o'r ddaear neu o goeden o flaen rhywun a hedfan i'r dde, daw lwc dda - ond lwc ddrwg os hedfana tua'r chwith. Cofnodwyd hyn yn benodol yn ardal Llanwnog, Sir Drefaldwyn gan Elias Owen (*Welsh Folklore*, 1896).

Ceid y canlynol yn *Llên Gwerin Sir Garfyrddin* hefyd:

*'Os disgyn pioden ar fuwch tua'r amser y byddir yn troi da allan, arwydd dda yw, ni yrra'r perchennog hi ffwrdd, y syniad yw mai dod I dynnu'r chwilod sydd weithiau ar gefnau'r gwartheg allan y mae, ac arwydda hynny ffafr rhagluniaeth'*
– wel o leiaf mae hyn yn gwneud synnwyr ecolegol yndydy?! (Sy'n fwy nag a ellir ei ddweud am rai coelion gwerin eraill mae'n debyg…)

A dyma ddyfynnu D.G. Williams eto:
*'Dywed ambell un fod un frân yn dynodi gofid, dwy llawennydd, tair priodas, pedair angladd'*

Mae'r hen ddywediad enwog arall hwnnw yn ategu rhan o'r uchod:
*'Dwy frân ddu*
*Lwc dda i mi!'*

Pam fod dwy frân yn lwcus tybed?! Gallai casgliad mawr o frain hefyd fod yn beth da – mae cael 'pentre brain' (hynny yw haid o ydfrain) yn nythu ger y ty yn lwc hynod o dda.

A wyddoch chi fod y Jac y do hefyd yn aderyn lwcus? Yn ôl Elias Owen yn y *'Welsh Folklore'* (1896) y rheswm dros yr hen gred oedd oherwydd fod cynifer ohonynt yn arfer nythu mewn tyrau Eglwysi – golygai hyn na fynnai'r diafol wneud unpeth â hwy, a'u bod, felly, yn adar Duwiol.

Ond dyna ni ddigon am y brain am rwan. Beth am adar eraill lwcus?

Wel, yn ôl rhai straeon, bydd bwyta cig gwydd yn lwcus, yn enwedig os gwneir hynny ar wyl Mihangel (y 29ain o Fedi). Pe gwneid hyn byddai'n golygu na fyddai'r un a fyddai wedi bwyta cig yr wydd yn gweld angen am fwyd nag arian gydol y flwyddyn ddilynol.

Fel y gwyddom, mae'r rhan fwyaf o'r straeon sydd gennym yma yng Nghymru am dylluanod yn cyfeirio atynt fel arwyddion o farwolaeth ac anlwc. Onid y dylluan ydi'r 'aderyn corff' y byddai pobl cymaint o'u hofn ar un adeg?

Ond gallai'r dylluan fod yn aderyn a ddeuai a doethineb i bobl mewn amryw o wledydd yn Ewrop. Ac ystyriai rhai o lwythau brodorol gogledd America hefyd fod i'r dyllan alluoedd i ragweld a rhagfynegi llwyddiant mewn brwydrau.

Yn wir, mae'n ddifyr nodi y daw nifer o adar yn symbolau a allai broffwydo buddugoliaeth (neu golled) mewn amser o ryfel.

Yn Sgandinafia byddai'r gigfran yn darogan lwc ag anlwc – ac o'i defnyddio ar eu baner ryfel, gallant ragweld canlyniad y frwydr. Pe byddai'r faner yn chwifio yn y gwynt gan edrych fel pe bai'r aderyn yn fyw yna ceid buddugoliaeth yn sicr. Ond pe bai'r faner yn llipa, fel bod y gigfran yn ymddangos yn ddifywyd yna ceid colledion enbyd.

Bu'r hen Geltiaid yng Nghâl yn addoli ceiliogod fel rhan o gred y Duw Mercher (duw Rhyfel). Byddai ceiliog yn canu gyda'r wawr yn arwydd o lwc gan ei fod yn cyfarch y dydd newydd a hyder ac yn cefnu ar ofnau a thywyllwch y nos (amser peryglus yn ystod unrhyw frwydr wrth gwrs gan y gallai'r gelyn ymosod heb rybudd).

Mae'r hen goel bod y ceiliog yn aderyn lwcus yn fyw heddiw yn

Ffrainc – welsoch chi'r logo hwn o'r blaen?

Ie, logo Undeb Rygbi Ffrainc wrth gwrs. Bydd ceiliog yn cael ei ollwng yn rhydd ar y cae cyn pob gêm rygbi ryngwladol oni bydd? 'Dwn i ddim os bydd yr hen geiliog yn lwcus i dim rygbi Ffrainc y gwanwyn hwn chwaith, ym mhencampwriaeth y chwe gwlad, â thîm Cymru mor gryf - gobeithio ddim ynte!

Ond gall y ceiliog fod yn lwcus i ni'r Cymry hefyd –

*'Os can y ceiliog o flaen drws y ty yn y boreu gellir disgwyl rhyw ymwelydd y diwrnod hwnnw'*
ebe'r Parch D.G. Williams – peth da os ydych yn hoff o gwmni (ond efallai nid cystal os oeddech yn gobeithio am *'lay-in'* ar fore Sadwrn! Go drapio'r ceiliog swnllyd!)

Aderyn arall a all fod yn lwcus (neu'n anlwcus, yn dibynnu ar eich sefyllfa pan glywch ef am y tro cyntaf!) yw'r gog. Ys dywed y Parch DG Williams (1886), eto:

*'Os bydd arian yn llogell un pan glyw y gwcw gyntaf bydd arian yn ei logell drwy y flwyddyn'*

Mae aml i ystyr i gân y gog cofiwch:

*'Cynifer gwaith ag yr ä y gog dros ei chân y tro cyntaf y clywir hi sydd o flynyddoedd gan yr un ai clyw i aros cyn priodi'*

Lle byddai gweld neu glywed ambell i aderyn tra'n wael yn arwydd o anlwc ar ddod, mae un gred yn bodoli am aderyn (neu o leiaf blu aderyn) yn gwneud y gwrthwyneb –

*'Os rhoir plu colomen yng ngwely claf, yna ni fydd farw'.*

Gwerth cadw llond llaw o blu colomen wrth law felly efallai, efo'r holl hanesion diweddar am y firws 'nero' yma sy'n blagus yr adeg hon o'r flwyddyn!

Un peth arall all godi calon rhywun yn ei waeledd ynghanol tywydd oer a gwlyb y gaeaf, pan fo annwydach a ffliwiau yn rhemp yw edrych ymlaen at y dydd yn ymestyn ('Mestyn cam ceiliog cyn y Calan' yn ôl yr hen ddywediad), ac at wres a heulwen y gwanwyn - sydd ar ei ffordd yn rhywle!

Ydy hi braidd yn gynnar meddwl am hyn ym mis Ionawr a Chwefror d'eudwch, a ninnau ynghanol gaeaf? Wel efallai ddim. Oherwydd mae'n debyg fod hen gred arall yng Nghymru sef fod clywed titw yn canu unrhyw bryd yn Chwefror pan fydd rhew ac eira o gwmpas ar y ddaear yn arwydd fod y tywydd ar droi a fod gwanwyn braf a chynnes ar ddod...a 'tydy Chwefror ddim mor bell a hynny i ffwrdd rwan nacydy?!

## Gweithgareddau Cymdeithas Ted Breeze Jones (Ion. – Mawrth, 2009)

Nos Fawrth Ionawr 20fed
**Seiat holi / noson gymdeithasol**
Y Stablau, Plas Tan y Bwlch, 7.30y.h.

Dydd Sadwrn, Ionawr 31ain
**Taith – Ardal y Foryd a Dinas Dinlle**
Dan arweiniad Rhodri Dafydd.
Cyfarfod yn y maes parcio, Dinas Dinlle, 10.00y.b. (SH435 565)

Nos Iau, Chwefror 12fed
**Darlith – Adar y Migneint, Rhys Jenkins, RSPB**
Y Stablau, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog,7.30 y.h.

Dydd Sadwrn Chwefror 28ain
**Taith – Ardal Cricieth a Llan'stumdwy**
Dan arweiniad Twm Elias.
Cyfarfod ym maes parcio'r traeth, Cricieth, 10.00y.b. (SH506 381)

Penwythnos 13-15 Mawrth
**Cwrs – Penwythnos o wylio adar** (ar y cyd a Chymdeithas Edward Llwyd)
Plas Tan y Bwlch, Maentwrog.
Ffoniwch y rhif isod am fanylion pellach a thelerau'r penwythnos. Mae'n bosib dod un ai yn breswyl neu yn ddibreswyl. (Ffoniwch 01766 772 600)

Dydd Sadwrn, Mawrth 28ain
**Taith – croesawu teloriaid helyg cynta'r tymor**
Cyfarfod yn Ynys, Talsarnau, 10.00y.b. (SH600 355)

**Atlas Adar 2007- 2011**

Bydd Cymdeithas Ted Breeze Jones yn parhau i gymryd rhan yn arolygon Atlas Adaryddol newydd y BTO yn ystod 2009. Mae croeso i bawb ymuno â ni ar ein teithiau i gymryd rhan yn y gwaith diddorol a phwysig hwn. Bydd yn gyfle i rai ohonoch ddysgu sut mae arolygon o'r fath yn digwydd a chewch weld fod y gwaith yn hwyl yn ogystal a bod yn ddefnyddiol! Bydd cofnodion yr adar a welwn ar deithiau'r Gymdeithas yn cael eu hanfon i'r BTO fel rhan o'n cyfraniad tuag at yr Atlas Adar.


PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK

CYMDEITHAS TED BREEZE JONES

# *Plas Tan y Bwlch*

*Canolfan Astudio Parc Cenedlaethol Eryri*

Pob llwyddiant i

Gymdeithas Ted Breeze Jones

ac i

LLYGAD BARCUD

Holwch am raglen o'r cyrsiau byd natur yr ydym yn eu cynnig,
neu am ein darpariaeth i grwpiau / cymdeithasau ymweld gyda'r nos am bryd bwyd,
a thro rownd y gerddi

Am ragor o wybodaeth a rhaglen lawn ffoniwch: 01766 772600